



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Mesurau perfformiad sgiliau: atodiad technegol

Cyflawni ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru

# Mesurau perfformiad sgiliau: atodiad technegol

## Cyflawni ein huchelgais ar gyfer sgiliau yng Nghymru

### Cynulleidfa

Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-19 yng Nghymru, yn cynnwys cyflogwyr a'u cyrff cynrychiadol; awdurdodau lleol; partneriaethau sgiliau rhanbarthol; colegau addysg bellach; darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn y gweithle; sefydliadau addysg uwch; undebau llafur; Canolfan Byd Gwaith; Gyrfa Cymru a sefydliadau dyfarnu.

### Trosolwg

Mae'r mesurau perfformiad sgiliau wedi'u datblygu yn sgil ymrwymiad yng nghynllun gweithredu ar gyfer sgiliau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r manylion technegol i ategu'r mesurau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddatblygu pob un ohonynt. Mae hefyd yn rhoi mwy o fanylion am y llinell sylfaen, y deunydd craidd a'r amllder ar gyfer y dangosyddion hynny sydd wedi'u datblygu.

### Camau i'w cymryd

Nid oes angen cymryd camau pellach.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Matthew Hicks

Yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Tŷ'r Afon

Heol Bedwas

Bedwas

CF83 8WT

Ffôn: 01443 663891

e-bost: [employmentandskillspolicy@cymru.gsi.gov.uk](mailto:employmentandskillspolicy@cymru.gsi.gov.uk)

### Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

[www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)

### Dogfennau cysylltiedig

*Mesurau perfformiad sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Datganiad polisi ar sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Datganiad polisi ar addysg uwch* (Llywodraeth Cymru, 2013); *Adolygiad cynllunio a chyllido ôl-16: adroddiad terfynol* (Llywodraeth Cymru, 2013).

ISBN digidol 978 1 4734 2308 4

© Hawlfraint y Goron Medi 2014

WG23345

# **Cynnwys**

<b>Methodoleg</b>	<b>2</b>
<b>Defnyddio'r mesurau perfformiad sgiliau</b>	<b>3</b>
<b>Swyddi a thwf</b>	<b>5</b>
<b>Cynaliadwyedd ariannol</b>	<b>8</b>
<b>Cydraddoldeb a thegwch</b>	<b>9</b>
<b>Meincnodi sgiliau'n rhyngwladol</b>	<b>10</b>

## Methodoleg

Mae mesurau perfformiad sgiliau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014, yn seiliedig ar ddeunyddiau o bob math a gasglwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ei hun a chyrrff eraill fel Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau. Rydym wedi defnyddio arbenigedd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau<sup>1</sup> wrth benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r data sydd ar gael i Gymru ar hyn o bryd, ac mae'r ffactorau canlynol, ymhlith eraill, wedi dylanwadu ar y broses:

- y data sydd ar gael ac a ydynt yn adlewyrchu'r ddeinameg, ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol (rhanbarthol)
- y posibilrwydd y bydd angen creu data yn y dyfodol a pha systemau sydd ar gael ar hyn o bryd i gomisiynu data yn gyson ac yn rheolaidd
- pa mor hawdd eu defnyddio yw'r data ac a yw'n hawdd eu cyfleu i bob carfan berthnasol
- yr angen i gadw at nifer fach o brif fesurau sy'n berthnasol i system sgiliau Cymru gyfan.

Wrth i fwy o waith gael ei wneud ar y mesurau perfformiad sgiliau, daw cyfle i adeiladu ar yr wybodaeth sydd gennym am sgiliau a'r farchnad lafur o ffynonellau eraill. I ategu'r gwaith hwn, byddwn yn defnyddio'r model ar gyfer **darparu sgiliau yn rhanbarthol**<sup>2</sup> ac yn defnyddio dylanwad ac arbenigedd y sefydliadau perthnasol i gael mewnbwn mwy soffistigedig oddi wrth gyflogwyr ar lefel leol neu ranbarthol.

Wrth i'r gwaith o sefydlu'r mesurau perfformiad sgiliau fynd yn ei flaen, rydym yn bwriadu ehangu'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael inni drwy gymharu Cymru â gwledydd eraill y DU a'r DU gyfan, ac yn rhyngwladol â gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Rydym am gydnabod y ffaith bod sgiliau yn adnodd byd-eang, a bod angen inni, felly, gymharu Cymru a gwledydd tebyg eraill y byd.

---

<sup>1</sup> [www.arsyllfadysgu.com](http://www.arsyllfadysgu.com)


<sup>2</sup> Gweler y Cynllun gweithredu sgiliau [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy)

## Defnyddio'r mesurau perfformiad sgiliau

Nid dim ond rhywbeth i Lywodraeth Cymru ei ystyried a gweithredu arno yw'r mesurau perfformiad sgiliau a'u dangosyddion cysylltiedig. Mae pwrpas pob mesur yn llawer ehangach ac yn cynnwys:

- gweithio i ddatblygu ymrwymiad unfrydol ym mhob carfan berthnasol i gydnabod eu cyfrifoldebau i hyrwyddo'r blaenoriaethau o ran sgiliau yng Nghymru
- hybu'r polisiau a'r rhaglenni sydd eisoes yn bod a thynnu sylw at gyfleoedd i ymyrryd yn y dyfodol a gwella'r ffordd rydym yn gweithio
- bod yn llinyn mesur i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'n huchelgais i ddatblygu system sgiliau ddiwygiedig sy'n gystadleuol ac yn gynaliadwy i'r dyfodol
- cynnal y cysylltiad rhwng blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol ac edrych ar sefyllfa Cymru o safbwynt rhyngwladol.

Rhagwelir y bydd y mesurau perfformiad sgiliau yn cael eu defnyddio'n helaeth wrth weithredu polisiau a rhaglenni o fis Ebrill 2015. Rydym am ganolbwyntio ar sicrhau ymrwymiad pob carfan berthnasol i'r mesurau. Byddwn yn datblygu proses sy'n caniatáu i unrhyw un eu herio a chyfrannu at y broses o'u datblygu. Mae'r diagram isod yn crynhoi sut y gallai'r broses ddwy ffordd hon weithio o safbwynt y Llywodraeth, cyrff darparu, cyflogwyr a'u gweithwyr:



## Llywio'r mesurau perfformiad sgiliau

Llywodraeth Cymru	Partneriaid darparu/partneriaethau sgiliau rhanbarthol	Cyflogwyr a'u gweithwyr
<ul style="list-style-type: none"><li>• Casglu gwybodaeth am y farchnad lafur</li><li>• Datblygu mesurau perfformiad sgiliau</li><li>• Sicrhau bod cyfresi data cenedlaethol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i gyflawni gofynion y prif garfanau perthnasol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Crynhoi'r prif faterion yn ymwneud â chyflogaeth a sgiliau yn lleol</li><li>• Crynhoi cymariaethau rhanbarthol i greu data ar gyfer Cymru</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Nodi'r sgiliau gofynnol drwy bartneriaethau sgiliau rhanbarthol</li><li>• Ystyried a yw'r ddarpariaeth yn diwallu'r anghenion</li><li>• Nodi heriau/cyfleoedd y dyfodol</li></ul>

O safbwynt Llywodraeth Cymru, y mesurau perfformiad sgiliau fydd sail y cynllun gweithredu sgiliau. Yn benodol bydd hyn yn cynnwys:

- defnyddio'r mesurau ar gyfer swyddi a thwf fel sail i'r **Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau** a'r **Rhaglen Sgiliau Hyblyg**
- ystyried y mesurau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol wrth fonitro sut caiff y **polisi cydfuddsoddi** ei weithredu rhwng y Llywodraeth a chyflogwyr
- gweithio drwy'r **model cyflenwi sgiliau rhanbarthol** i godi lefelau sgiliau ym mhob un o dri rhanbarth Cymru, yn unol â'r mesurau ar gyfer meincnodi sgiliau'n rhyngwladol
- sicrhau bod yr hyn rydym yn ei gynnig bellach o ran cyflogaeth a sgiliau, megis y **rhaglen gyflogadwyedd newydd i oedolion**, yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer yr unigolion hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig yn unol â'r mesurau cydraddoldeb a thegwch.

Yn unol â'r cynllun gweithredu sgiliau, rhagwelir y caiff y mesurau perfformiad sgiliau, erbyn Ebrill 2015, eu hintegreiddio i bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Y bwriad wedyn fydd adolygu'r mesurau yn flynyddol gan ddechrau o fis Ebrill 2016. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru asesu'r cynnydd tuag at y nod o gael system sgiliau gynaliadwy a chystadleuol. Bydd yr adolygiad o fesurau yn dibynnu ar ba mor aml y caiff data eu rhyddhau.

## Swyddi a thwf

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar yr ymgyrch i gefnogi swyddi sy'n galw am sgiliau uwch a'r gwelliannau cysylltiedig y gellir disgwyl eu gweld yng Nghymru o ran cyflogaeth a lefelau cynhyrchiant. Mae'r mesur hefyd yn canolbwyntio ar anghenion cyflogwyr am sgiliau Cymraeg yng Nghymru. Mae'r dangosyddion a gaiff eu monitro yn cynnwys:

- newidiadau yn y **gyfradd gyflogaeth** o gymharu â'r DU
- newidiadau mewn **cynhyrchiant** o gymharu â'r DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr)
- bylchau sgiliau oherwydd diffyg **sgiliau Cymraeg**

## Cyflogaeth

Byddwn yn monitro newidiadau yng nghyfran yr oedolion 16-64 oed sydd mewn gwaith. Er mwyn meincnodi yn erbyn y DU, byddwn yn mesur y gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a'r DU. Daw'r wybodaeth hon bob chwarter o'r Arolwg o'r Llafurlu<sup>3</sup> ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd chwemisol treigl y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a chyfradd y DU. Er enghraifft, ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf sydd wedi dod i law ar gyfer chwarter ail 2014, y gwahaniaeth yw minws 2.68 o bwyntiau canran.

Dangosydd	Cyflogaeth
Mesur	Cyfran y rheini o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth
Uned fesur	Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng Cymru a'r DU
Ffynhonnell	Yr Arolwg o'r Llafurlu
Llinell sylfaen	-2.68 o bwyntiau canran (o gymharu â'r DU)
Dyddiad y llinell sylfaen	Chwarter ail 2014 (Ebril-Mehefin)
Pa mor aml	Bob chwarter

## Cynhyrchiant

Byddwn yn monitro newidiadau yn y Gwerth Ychwanegol Gros ar sail pob awr a weithir, sy'n mesur cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yng ngweithleoedd Cymru, wedi'i rannu â nifer yr oriau a weithir. Bob blwyddyn, darperir yr wybodaeth hon am y flwyddyn flaenorol.

<sup>3</sup> Arolwg yw hwn o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y DU. Hwn yw arolwg cartrefi mwyaf y DU, gan ddarparu'r mesurau cyflogaeth a diweithdra swyddogol.

Yr amcan diweddaraf o Werth Ychwanegol Gros Cymru oedd £47.3 biliwn (2012) neu £23.18 am bob awr a weithiwyd. Cyfrifir y mesur hwn mewn termau canran yn erbyn yr un mesur ar gyfer y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr). Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros ar sail pob awr a weithir yng Nghymru yn 92.9 y cant o Werth Ychwanegol Gros y DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr).

Dangosydd	Cynhyrchiant
Mesur	Gwerth Ychwanegol Gros ar sail pob awr a weithir
Uned fesur	£ am bob awr a weithir o gymharu â'r DU (ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr)
Ffynhonnell	Cyfrifon Rhanbarthol <sup>4</sup>
Llinell sylfaen	92.9 y cant (o gymharu â'r DU ac eithrio Llundain a De-ddwyrain a Dwyrain Lloegr)
Dyddiad y llinell sylfaen	2012
Pa mor aml	Bob blwyddyn

## Sgiliau Cymraeg

Byddwn yn monitro newidiadau o ran i ba raddau y mae anghenion cyflogwyr am sgiliau Cymraeg yn cael eu diwallu. Cymerir gwybodaeth o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr<sup>5</sup> a ryddheir bob dwy flynedd. Byddwn yn monitro cyfran y bylchau sgiliau sy'n codi oherwydd diffyg sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg. Roedd y ffigurau diweddaraf yn 2013 yn dangos bod 28 y cant o'r bylchau sgiliau yn ymwneud, yn rhannol o leiaf, â sgiliau llafar Cymraeg, a 27 y cant yn ymwneud â sgiliau ysgrifenedig Cymraeg. Byddwn hefyd yn monitro cyfran y cyflogwyr y mae'r bylchau sgiliau o ran y Gymraeg yn effeithio arnynt.

Dangosydd	Bylchau sgiliau o ran y Gymraeg
Mesur	Bylchau sgiliau oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg
Uned fesur	Canran y bylchau sgiliau sy'n ymwneud, yn rhannol, â sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg
Ffynhonnell	Yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
Llinell sylfaen	Sgiliau llafar Cymraeg – 28 y cant Sgiliau ysgrifenedig Cymraeg – 27 y cant
Dyddiad y llinell sylfaen	Mai-Awst 2013
Pa mor aml	Bob dwy flynedd

<sup>4</sup> Llundir Cyfrifon Rhanbarthol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Maent yn rhoi gwybodaeth am amrywiaeth economaidd ranbarthol ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu gwledydd a rhanbarthau'r DU.

<sup>5</sup> Llundir yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau ac mae'n rhoi darlun cynhwysfawr o'r anghenion o ran sgiliau a'r buddsoddi a wneir mewn hyforddiant, gan gynnwys swyddi gwag a phrinder sgiliau, bylchau yn sgiliau gweithwyr a manylion recriwtio'r rheini sy'n gadael addysg a phobl ifanc.



## **Mesur ein llwyddiant**

Nid oes targedau wedi'u pennu ar gyfer dangosyddion cyflogaeth a chynhyrchiant gan nad oes perthynas 'achos ac effaith' rhwng y dangosyddion ac unrhyw elfennau penodol o'r cynllun gweithredu sgiliau. Yn hytrach byddant yn ein helpu i ddeall ansawdd y farchnad lafur yng Nghymru a'r materion polisi y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw.

Yn dilyn cyhoeddi'r dangosyddion hyn, ein bwriad fydd datblygu portffolio ehangach o dystiolaeth i'n galluogi i gymharu sefyllfa Cymru o ran lefelau cynhyrchiant â chenhedloedd tebyg o bob rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

O ran sgiliau Cymraeg, y nod fydd lleihau'r diffyg y mae cyflogwyr yn ei wynebu yng nghyd-destun galw cynyddol posibl neu debygol am y sgiliau hyn.

## Cynaliadwyedd ariannol

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cydbwysedd priodol a chynaliadwy o gyllid ar gael i gefnogi'r system sgiliau oddi wrth y llywodraeth, cyflogwyr, unigolion a, lle bo'n briodol, drwy gyllid Ewropeaidd. Y dangosydd a gaiff ei fonitro fydd:

- y bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran lefel **buddsoddiad cyflogwyr yn sgiliau eu gweithwyr**

### Buddsoddiad cyflogwyr yn sgiliau eu gweithwyr

Byddwn yn monitro unrhyw newidiadau yn lefel y buddsoddiad a wneir gan gyflogwyr yn sgiliau eu gweithlu. Caiff yr wybodaeth hon ei rhyddhau bob dwy flynedd drwy'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr. Yn 2013, y gwariant fesul unigolyn a hyfforddwyd yng Nghymru oedd £2,180, sy'n cyfateb i £1,350 y gweithiwr. Yn y DU, y ffigurau cyfatebol oedd £2,550 a £1,590. Byddwn hefyd yn edrych ar ffigurau rhanbarthau sydd â strwythur diwydiannol tebyg i Gymru, fel Gogledd-ddwyrain Lloegr (lle gwariwyd £2,410 a £1,390 gan gyflogwyr).

Dangosydd	Buddsoddiad cyflogwyr yn sgiliau eu gweithwyr
Mesur	Gwariant cyflogwyr fesul unigolyn a hyfforddir a fesul gweithiwr
Uned fesur	£ y person a hyfforddir a fesul gweithiwr
Ffynhonnell	Yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
Llinell sylfaen	£2,180 yr unigolyn a hyfforddir a £1,350 y gweithiwr
Dyddiad y llinell sylfaen	Mai-Awst 2013
Pa mor aml	Bob dwy flynedd

### Mesur ein llwyddiant

Mae'r dystiolaeth sydd gennym eisoes yn tynnu sylw at her buddsoddi mewn sgiliau, yn enwedig gan fod cyflogwyr yng Nghymru sy'n darparu hyfforddiant allanol yn fwy tebygol na'r rheini yn y DU gyfan o gael cymorth i ariannu eu hyfforddiant allanol<sup>6</sup>. Bydd codi lefel buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau o'r pwys mwyaf o ran cynaliadwyedd y system sgiliau ac yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru o gydfuddsoddi mewn sgiliau.

Er mwyn paratoi cyflogwyr ar gyfer yr adeg pan gaiff cyllid ei leihau, neu pan na fydd ar gael o gwbl, bydd angen newid diwylliannol mawr, lle bydd cyflogwyr yn cydnabod manteision gweithwyr hyfedr i'w sefydliad a lle byddant felly yn fwy parod i fuddsoddi mewn sgiliau. Yn y dyfodol agos, ein ffocws felly fydd cymryd camau i sicrhau bod Cymru ar yr un lefel â gweddill y DU o ran buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau.

<sup>6</sup> *Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr* (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, 2012)

## Cydraddoldeb a thegwch

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cyfle cyfartal i unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig<sup>7</sup> o ran cael mynediad i gymorth cyflogaeth a sgiliau wedi iddynt droi'n 19 oed. Mae'r dangosyddion a gaiff eu monitro yn cynnwys:

- data ar **gydraddoldeb mynediad** i raglenni cyflogaeth a sgiliau

## Cydraddoldeb mynediad

Byddwn yn monitro newidiadau yn nemograffeg yr unigolion hynny sy'n ymuno â'n rhaglenni cyflogaeth a sgiliau. Yn benodol, byddwn yn monitro demograffeg y dysgwyr hynny sy'n dilyn amrywiaeth o raglenni Llywodraeth Cymru. Caiff oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw eu hystyried.

Dangosydd	Cydraddoldeb mynediad
Mesur	Demograffeg y rheini sy'n ymuno â rhaglenni cyflogaeth a sgiliau, yn eu cwblhau neu'n symud ymlaen yn llwyddiannus yn eu sgil
Uned fesur	Canran y dysgwyr sy'n ymuno â rhaglenni cyflogaeth a sgiliau, yn symud ymlaen yn eu sgil ac yn eu cwblhau'n llwyddiannus, ac sydd hefyd yn perthyn i grwpiau nodweddion gwarchoddedig (a ddiffinnir ar sail oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw)
Ffynhonnell	Llywodraeth Cymru/Swyddfda Cyllid Ewropeaidd Cymru
Pa mor aml	Bob blwyddyn

## Mesur ein llwyddiant

Mae'r dangosydd ar gyfer cydraddoldeb mynediad yn ymwneud â grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. O gofio cymhlethdod y diffiniad hwn ac ystod y data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ni phennwyd unrhyw dargedau ar gyfer y dangosydd hwn ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, y nod hirdymor yw bod demograffeg yr unigolion hynny sy'n ymuno â rhaglenni cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru, yn eu cwblhau neu'n symud ymlaen yn llwyddiannus yn eu sgil yn cynrychioli holl garfanau'r boblogaeth. Yn achos rhaglenni a ddarperir yn lleol neu'n rhanbarthol, byddem yn disgwyl gweld bod demograffeg yr unigolion sy'n eu dilyn yn adlewyrchu natur poblogaeth yr ardaloedd perthnasol.

<sup>7</sup> Mae'r dangosydd a gaiff ei fonitro yn ymwneud â grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ni chaiff darparwyr sy'n cynnig rhaglenni dysgu ar ran Llywodraeth Cymru wahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oedran; hil; ffydd neu gredo; cyfeiriadedd rhywiol; rhyw; beichiogrwydd neu famolaeth; bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil; bod yn anabl; na bod yn drawsrywiol. Oherwydd cyfyngiadau data, bydd y ffocws ar y nodweddion hynny a nodir yn y prif destun.

## Meincnodi sgiliau'n rhyngwladol

Mae'r mesur hwn yn canolbwyntio ar wella proffil sgiliau Cymru yn unol â swyddi'r dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol a'n bod yn cyflawni ein potensial fel cenedl hyfedr. Mae'r dangosyddion a gaiff eu monitro yn cynnwys:

- **proffil cymwysterau** oedolion o oedran gweithio
- bylchau sgiliau oherwydd diffyg **Sgiliau Hanfodol**

### Proffil cymwysterau

Byddwn yn monitro newidiadau yng nghyfran yr unigolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefel 2, 3 a 4 neu'n uwch. Daw gwybodaeth i law bob blwyddyn o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth<sup>8</sup>. Wrth gyfeirio at oedolion o oedran gweithio, rydym yn golygu'r rheini sydd rhwng 16 a 64 oed<sup>9</sup>.

Er ein bod yn cydnabod nad yw cymwysterau yn cyfateb i sgiliau, defnyddir y proffil cymwysterau oherwydd ei bod mor anodd mesur sgiliau. Mae codi lefelau cymwysterau yng Nghymru yn bwysig gan y bydd yn ein galluogi i ennill y sgiliau i gystadlu lle mae yna symud parhaus tuag at swyddi sy'n galw am sgiliau uwch.

Dangosydd	Proffil cymwysterau
Mesur	Canran y rheini o oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefelau 2, 3 a 4 <sup>10</sup> neu'n uwch
Uned fesur	Canran y rheini sydd o oedran gweithio (16-64)
Ffynhonnell	Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Llinell sylfaen	Cymru – Lefel 2 – 22 y cant; Lefel 3 – 21 y cant; Lefel 4 neu'n uwch – 32 y cant y DU – Lefel 2 – 21 y cant; Lefel 3 – 20 y cant; Lefel 4 neu'n uwch – 36 y cant
Dyddiad y llinell sylfaen	2013
Pa mor aml	Bob blwyddyn

<sup>8</sup> Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cyfuno samplau'r Arolwg o'r Llafurlu ac yn darparu data treigl am bedwar chwarter y farchnad lafur yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU a hefyd mewn ardaloedd lleol.

<sup>9</sup> Ar hyn o bryd, cyhoeddir data yn ôl rhyw. Diffinnir menywod o oedran gweithio fel y rheini sydd rhwng 18 a 59 oed a dynion o oedran gweithio fel y rheini sydd rhwng 18 a 64 oed.

<sup>10</sup> Yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, caiff cymwysterau eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl eu hanhawster. Pennir lefel iddynt o lefel mynediad i lefel 8. Caiff y lefelau eu seilio ar y safonau gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd sydd eu hangen ar gyfer pob cymhwyster. Gall cymwysterau sydd ar yr un lefel fod yn wahanol iawn o ran eu cynnwys a pha mor hir mae'n ei gymryd i'w cwblhau. Mae adnodd ar-lein ar gael i gymharu cymwysterau: [www.ofqual.gov.uk/help-and-advice/comparing-qualifications](http://www.ofqual.gov.uk/help-and-advice/comparing-qualifications)

## Sgiliau Hanfodol

Byddwn yn monitro newidiadau o ran i ba raddau y caiff anghenion cyflogwyr am Sgiliau Hanfodol eu cyflawni. Cymerir gwybodaeth o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr a ryddheir bob dwy flynedd.

Wrth gyfeirio at Sgiliau Hanfodol, rydym yn golygu sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh<sup>11</sup>. Byddwn yn monitro cyfran y bylchau sgiliau sy'n ymwneud, yn rhannol o leiaf, â sgiliau rhifedd a llythrennedd, a sgiliau TG sylfaenol.

Roedd ffigurau diweddaraf Cymru (2013) yn dangos bod 36 y cant o'r bylchau sgiliau yn ymwneud, yn rhannol o leiaf, â sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol/defnyddio TG, 35 y cant â sgiliau llythrennedd a 33 y cant â sgiliau rhifedd. Byddwn hefyd yn monitro cyfran y cyflogwyr y mae diffyg Sgiliau Hanfodol yn effeithio arnynt.

Dangosydd	Sgiliau Hanfodol
Mesur	Bylchau sgiliau sy'n ymwneud â Sgiliau Hanfodol
Uned fesur	Canran y bylchau sgiliau sy'n ymwneud, yn rhannol o leiaf, â sgiliau rhifedd, sgiliau llythrennedd a sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol/defnyddio TG
Ffynhonnell	Yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
Llinell sylfaen	Cymru – Rhifedd – 33 y cant; Sgiliau llythrennedd – 35 y cant; Sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol/defnyddio TG – 36 y cant y DU - Rhifedd – 23 y cant; Sgiliau llythrennedd – 25 y cant; Sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol/defnyddio TG – 26 y cant
Dyddiad y llinell sylfaen	Mai-Awst 2013
Pa mor aml	Bob dwy flynedd

## Mesur ein llwyddiant

Yn y lle cyntaf, bydd y ffocws ar gymharu proffil sgiliau cyfredol Cymru â'r swyddi a ragwelir yn y dyfodol a'u gofynion. Bydd hefyd yn fwriad cymharu proffil sgiliau Cymru â proffil y DU ac, yn dibynnu ar y data sydd ar gael i'w cymharu, adolygu sefyllfa Cymru yn erbyn cenhedloedd tebyg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Er mwyn ategu ein gwaith o gymharu proffil sgiliau Cymru â gwledydd eraill, byddwn hefyd yn ceisio datblygu sylfaen dystiolaeth ehangach. Rydym am edrych ar i ba raddau y mae cyflogwyr yn defnyddio sgiliau yn y gweithle, ac ar newidiadau yng nghyfran y gweithlu yr ystyrir bod ganddynt ormod o sgiliau neu gymwysterau. O ran sgiliau hanfodol, y nod cyffredinol fydd lleihau'r diffyg sgiliau y mae cyflogwyr yn ei wynebu yng nghyd-destun galw cynyddol posibl neu debygol am sgiliau'r gweithle.

<sup>11</sup> Mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn gofyn i gyflogwyr am ddiffyg sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol sylfaenol/defnyddio TG. Dyma ein diffiniad o sgiliau TGCh hanfodol.